YSGOL BRYNREFAIL

Y James Dyson Newydd?

Newyddion o adran Dylunio a Thechnoleg Ysgol Brynrefail

Faint ohonoch sy'n hoffi hwfro eich tai? Faint ohonoch sydd berchen â sugnydd llwch Dyson? Faint ohonoch sydd yn gwybod sut mae'n gweithio ac allan o ba ddefnyddiau maent wedi eu cynhyrchu? Wel, os oes gennych gwestiynnau gofynnwch i unrhyw ddisgybl blwyddyn 10 Ysgol Brynrefail sydd yn dilyn cwrs Dylunio a Thechnoleg.

Cafwyd cyfle i edrych ar adeiladwaith sugnydd llwch Dyson, fel rhan o focs addysgiadol a ddaeth i'r ysgol am fis. Roedd y bocs hefyd yn cynnwys nifer o rhannau ble roedd y disgyblion yn cael eu tynnu yn rhydd, er mwyn dysgu sut mae cynhyrchion wedi eu dylunio a'u cynhyrchu.
Synnwyd nifer o'r disgyblion i wybod fod James Dyson wedi cynhyrchu dros 5000 o brototeipiau cyn iddo gael yr un cyntaf i weithio yn iawn. Faint o'n pobl ifanc ni oes yma fysa'n gallu dangos yr un ymroddiad a dyfalbarhad?

.Roedd y disgyblion yn frwd iawn wrth ddatgymalu'r eitemau, a diolch i'r drefn llwyddwyd pob grŵp i ail osod y gwrthrych yn ôl gyda'i gilydd yn gywir. Dywedodd Robin "Roedd yn brofiad anhygoel ac nid oeddwn wedi sylweddoli gymaint o waith oedd wedi mynd i fewn i gynhyrchu un o'r rhain"

Dywedodd Sian, Manon a Hanna "Roedd hi'n hwyl cael datgymalu y Dyson. Rydym wedi dysgu llawer, a ni fyddwn yn edrych ar sugnyddion llwch yr un ffordd eto." :)